LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem:** 10

**Teitl:** Diweddariad ein pobl

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn er gwybodaeth a sicrwydd. |
| **Risg / Risk** | **CR1 – Pobl a sgiliau** – sicrhau ein bod yn cadw ac yn caffael y cymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau.<br><br>Mae hefyd yn cyd-fynd ag **Archwaeth Risg RA8** – awydd brwd i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn. Mae pob swydd wag a swydd sy'n cael ei llenwi wedi'i chyllidebu. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective** | Amcan/maes blaenoriaeth 5 - tyfu a gwella fel sefydliad.<br><br>Fel sy'n gysylltiedig â Strategaeth Llais ar gyfer 2024-2027 – sy'n tynnu sylw at yr uchelgais i esblygu i fod yn sefydliad aeddfed, sy'n cael ei redeg yn dda, sy'n ddibynadwy ac yn uchelgeisiol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn nodweddion ym mhopeth a wnawn gyda'n pobl yn Llais. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu hadlewyrchu fel sy'n briodol o fewn y materion yr adroddir arnynt. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>Allanol: enw da ein sefydliad ☒ |

| Cymeradwyaeth / Approval/Clearance | Alyson Thomas, Prif Weithredwr |
|---|---|
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Mae'r Bwrdd wedi derbyn adroddiad ar faterion y gweithlu a phobl ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn hefyd yn y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth ar 29 Hydref 2025. |
| **Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting** | Cyfarwyddwr Pobl, Llesiant a Datblygu Sefydliadol/ Prif Weithredwr |
| **Dyddiad / Date** | Tachwedd 2025 |

## Cefndir / Background

Mae'r adroddiad hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd materion allweddol yn ymwneud â'r gweithlu a phobl. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio, dysgu a datblygu, gwaith polisi a gweithgareddau datblygu sefydliadol.

Derbyniodd y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth ddiweddariad ar faterion a data allweddol yn ymwneud â'r gweithlu a phobl yn ei gyfarfod ar 29 Hydref, 2025.

## Manylion / Detail

**Tîm pobl**

Fe wnaethon ni ail-gyfweld am swydd wag Cynorthwyydd Cymorth Gwasanaethau Pobl yn y tîm ar Hydref 23, 2025 ac rydym yn falch o fod wedi gwneud cynnig cyflogaeth amodol gyda dyddiad cychwyn dros dro (yn amodol ar wiriadau cyn-gyflogaeth) yng nghanol mis Rhagfyr 2025.

**Swyddi gwag presennol**

Mae'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn gywir ar 29 Hydref, 2025.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw swyddi gwag yn cael eu hysbysebu; fodd bynnag, mae recriwtio wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf ac mae'n debygol y bydd yn parhau felly am beth amser i ddod. Isod mae crynodeb o sefyllfa gweithgaredd recriwtio yn Llais.

| Rôl | Cam recriwtio |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl ac Adnoddau | Mae trafodaethau ar y gweill gydag asiantaethau recriwtio posibl i gefnogi recriwtio i'r rôl arweinyddiaeth uwch hon. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r broses hon wedi'i halinio â'r ailwerthusiad arfaethedig o rôl y Cyfarwyddwr Strategol Cynllunio a Chyflenwi/Dirprwy Brif Weithredwr. |
| Eiriolwr Cwynion – rhanbarth Gwent | Ceisiadau yn y cyfnod llunio rhestr fer |
| Gweinyddwr System TGCh – Tîm Cenedlaethol | Ymgeisydd llwyddiannus yn symud ymlaen trwy wiriadau cyn-gyflogaeth |
| Cynorthwyydd Cymorth Gwasanaethau Pobl – Tîm Cenedlaethol | Ymgeisydd llwyddiannus yn symud ymlaen trwy wiriadau cyn-gyflogaeth |
| Pennaeth Rhanbarthol Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu (4 Swydd) – Gwent, Castell-nedd, Port Talbot ac Abertawe, Gogledd Cymru, Powys, Gorllewin Cymru | Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer rhanbarthau Gwent a Phowys. Cynigion penodiad amodol wedi'u gwneud. Cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer Gogledd Cymru. Cyfweliadau'n cael eu trefnu ar gyfer rhanbarthau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a Gorllewin Cymru |
| Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol (2 Swydd) – Caerdydd a'r Fro, Powys | I'w hysbysebu'n fuan |
| Cyfieithydd Cymraeg – Tîm Cenedlaethol | I'w hysbysebu'n fuan |
| Rheolwr Cyfathrebu – Tîm Cenedlaethol | I'w hysbysebu'n fuan |
| Cymorth Ymgysylltu Rhanbarthol (4 Swydd) – Cwm Taf Morgannwg, Gwent, Gogledd Cymru, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe | Rôl yn y cam mireinio terfynol cyn ymgynghori a gwerthuso. |

**Diweddariad dysgu a datblygu**

Ers i'r Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol newydd ymuno â'r tîm, rydym wedi gallu gwneud cynnydd sylweddol o ran cryfhau ein cynnig dysgu a datblygu.

Mae camau gweithredu tymor byr wedi mynd i'r afael â dysgu statudol a gorfodol, datblygu arweinyddiaeth, a chodi ymwybyddiaeth ar draws meysydd allweddol fel gofal cymdeithasol a seiberddiogelwch. Ar yr un pryd, mae'r sylfaen yn cael ei gosod ar gyfer dull mwy strwythuredig a chynaliadwy, gan gynnwys datblygu fframwaith sgiliau a gwybodaeth ac asesiad anghenion dysgu.

Isod mae crynodeb o'n prif weithgareddau Dysgu a Datblygu ers yr adroddiad arferol diwethaf:

Hyfforddiant statudol a gorfodol
Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i wella ansawdd data ein mynediad a'n cofnodion modiwlau e-ddysgu statudol a gorfodol. Mae'r cydweithrediad hwn yn parhau, gyda'r nod o symud pob cwrs yn ôl i blatfform ESR o'r porth Learning@Wales presennol.

Cwblhau ymwybyddiaeth gofal cymdeithasol
Gwahoddwyd yr holl staff i fynychu sesiwn diwrnod llawn ar Niwroamrywiaeth ac Ymwybyddiaeth o Ddementia, a gyflwynwyd yn bersonol ac ar-lein. Dyma oedd cydran olaf rhaglen ddysgu ymwybyddiaeth Gofal Cymdeithasol 18 mis ehangach.

Hyfforddi a mentora
Mae rhai aelodau staff yn derbyn mentora neu hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad personol.

Dysgu trwy ymarfer
Mae uwch arweinwyr wedi cymryd rhan mewn gweithdy pellach a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ein dull o gynrychioliadau. Roedd hyn yn cynnwys gweithio drwy astudiaethau achos ac yn darparu cyfle dysgu gwerthfawr wrth gymhwyso dulliau cyson.  Roedd sesiwn gynharach yn ein Grŵp Cyflawni Strategol a oedd yn cynnwys Dirprwy Gyfarwyddwyr Rhanbarthol.

Ymwybyddiaeth seiber
Cynhaliwyd efelychiadau gwe-rwydo i asesu ymwybyddiaeth ein staff ac aelodau'r bwrdd o fygythiadau seiber. Cafodd y rhai a gliciodd ar y ddolen gwe-rwydo efelychiedig eu hailgyfeirio i fodiwl hyfforddi ymwybyddiaeth seiber.

Mae cyfleoedd dysgu eraill hefyd yn cael eu hwyluso'n rheolaidd yn ein sesiynau staff bob pythefnos neu drwy ein cyfarfodydd cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae sesiynau wedi cynnwys:

- ymgysylltu â phobl ag anawsterau dysgu
- ymddygiad sefyllwyr
- cynnal asesiadau effaith integredig
- defnyddio ffotograffiaeth.

Cyflwynir llawer o'r dysgu hwn drwy rannu sgiliau ar draws y sefydliad.

Bydd ein ffocws yn ystod y chwe mis nesaf yn parhau ar ddysgu wedi'i dargedu ac ymatebol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghenion datblygu a nodwyd ac

uwchsgilio/cynyddu dealltwriaeth o agweddau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth a'n hymrwymiadau cynllun blynyddol yn llwyddiannus. Mae cynlluniau sydd ar y gweill yn cynnwys y canlynol:

Sesiwn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Rydym yn datblygu sesiwn gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd hyn yn canolbwyntio ar driongli cwynion a'r broses arolygu.

Hyfforddiant eiriolaeth cwynion:
Mae Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Arweinydd Eiriolaeth Cwynion yn cydweithio i adolygu a datblygu ymhellach ein matrics sgiliau a gwybodaeth ar gyfer ein rolau eiriolaeth cwynion. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'r Tîm Pobl wedi dod o hyd i gyfle i gael mynediad at gyllid ar gyfer cymhwyster Eiriolaeth Lefel 4 City and Guilds trwy Goleg Gŵyr, Abertawe. Byddai'r cymhwyster hwn, a gyflwynir yn rhithwir, yn cefnogi eiriolwyr cwynion nad oes ganddynt gymhwyster proffesiynol ar hyn o bryd i gyflawni hyn dros gyfnod o 12-18 mis. Mae gennym ni staff hefyd sydd yng nghanol eu rhaglenni hyfforddi eiriolaeth broffesiynol (sy'n cwmpasu lefelau 2 i 4) a byddwn ni'n parhau i gefnogi eu dysgu.

Anghenion dysgu unigol eraill
Mae'r ceisiadau canlynol wedi'u derbyn a'u hystyried ar gyfer unigolion neu rolau penodol ar draws y sefydliad:

Hyfforddiant gweithwyr unigol a dad-ddwysáu
Mae cynnig wedi'i ddatblygu gan y tîm pobl ac wedi'i gytuno wedi hynny yn y Tîm Gweithredol i ddarparu hyfforddiant ar weithwyr unigol a dad-ddwysáu i bob aelod o staff eiriolaeth cwynion ac ymgysylltu ar draws 8 sesiwn rithwir. Mae'r dysgu hwn yn ymgorffori cais a wnaed drwy'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol i ddatblygu sgiliau a hyder i gefnogi cynnydd mewn ceisiadau am gymorth gan unigolion sy'n cyflwyno ag amrywiaeth o anghenion cymhleth.

Hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain
Mae angen i'n staff gael cynnig hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain i gefnogi atgyfeiriadau gan ac ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned Fyddar, drwm eu clyw a thinnitus. Cytunwyd ar gynnig yn y Tîm Gweithredol i gynnig 8 cwrs hunangyfeiriedig i gwmpasu pob rhanbarth a'r tîm cenedlaethol.

Datblygu rheolwyr swyddogaethol/canol
Mae ymchwil ar y gweill i nodi opsiynau dysgu addas ar gyfer rheolwyr swyddogaethol/canol, gan ganolbwyntio ar themâu allweddol rheoli pobl, gan gynnwys

- Rheoli sgyrsiau heriol
- Rheoli absenoldeb oherwydd salwch
- Rheoli perfformiad

Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol i lunio cynnig dysgu tymor byr.

Ochr yn ochr â'r anghenion dysgu hyn sydd eisoes wedi'u nodi, mae ffurflen gais datblygu dysgu unigol wedi'i datblygu i'w defnyddio mewn trafodaethau unigol ac arfarnu perfformiad a datblygu. Bydd hyn yn helpu i nodi anghenion dysgu unigol, a fydd yn cael eu hadolygu bob mis gan y Tîm Pobl mewn cyfarfodydd gydag arweinwyr a chyfarwyddwyr rhanbarthol.

**Ein strategaeth pobl**

Yn ei gyfarfod diwethaf, ystyriodd y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth y drafft diweddaraf o'n Strategaeth Pobl, a chytunodd y dylai symud i'r cam ymgynghori â staff cyn ei ystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026.

Fel rhan o'r strategaeth hon, mae fframwaith gwybodaeth a sgiliau newydd a Dadansoddiad Anghenion Dysgu cynhwysfawr wedi'u cynllunio ar gyfer Chwarter 4 y flwyddyn ariannol hon.

Bydd mewnwelediadau o'r dadansoddiad hwn yn llywio Cynllun a Chyllideb Flynyddol 2026/27, gan sicrhau bod dysgu a datblygu wedi'u hymgorffori'n strategol a bod adnoddau priodol ar gael.

**Ein dangosfwrdd pobl**

Mae ein dangosfwrdd pobl chwarterol ar gyfer y chwarter Gorffennaf i Fedi 2025 yn Atodiad 1.